**Cofnodion ail gyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2015 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Y Cyng. W Tudor Owen, Cynrychiolydd y Cyflogwr (Cadeirydd)
Y Cyng. Delyth Macrae, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Ken Finch, Trysorydd, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân, i gynghori
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau, i gynghori
Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Sandra Williams, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, Cofnodydd

YMDDIHERIADAU
Y Cyng. Brian Dunn, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Shane Price, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Ymddiheurodd y DBST i'r aelodau nad oedd mewnrwyd y Gwasanaeth yn gweithio ac felly byddai'n rhaid i'r eitem ar yr agenda am y modiwl gwrthdaro rhwng buddiannau gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf. Hefyd, roedd y Pennaeth Cyllid wedi bwriadu dangos gwefan cronfa bensiwn Dyfed i'r aelodau, ac eto ni fyddai hyn yn bosibl. Fodd bynnag, gwahoddwyd yr aelodau i ymweld â'r wefan i gael rhagor o wybodaeth http://www.dyfedpensionfund.org.uk/Pages/default.aspx

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nodwyd y materion a ganlyn:

3.2 (4) Yn dilyn ymddeoliad Mike Hough yn ddiweddar, roedd Geraint Hughes nawr yn un o gynrychiolwyr y gweithwyr o Gymdeithas y Swyddogion Tân.

3.3 (7) Roedd y polisi ar ddisgresiynau'r cyflogwr mewn perthynas â datblygiad proffesiynol a'r hawl i ad-dalu cyfraniadau'r cyflogwr, wedi cael ei gymeradwyo yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ym Mehefin 2015.

4 EITEMAU O BWYS

4.1 Ar ôl i'r DBST fynychu cyfarfodydd pensiynau Cymru gyfan yn ddiweddar, gofynnwyd i'r aelodau nodi'r canlynol:

4.2 Caiff dadansoddiad electronig o anghenion hyfforddi ei sefydlu ar gyfer pob aelod, a bydd hwnnw'n golygu bod modd cadw cofnod llawn o hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r bwrdd pensiwn lleol.

4.3 Ar ôl trafod mewn cyfarfod a ddylai cyfarfodydd y bwrdd pensiwn lleol fod yn agored i'r cyhoedd, y cyngor oedd y dylai fod yn gyfarfod caeedig.

4.4 Roedd y DBST wedi mynychu digwyddiad hyfforddi ar 4ydd Tachwedd. Roedd y cyflwyniad wedi cael ei anfon ar e-bost i'r holl aelodau, a thynnodd y DBST sylw'r aelodau'n arbennig ar rywfaint o'r wybodaeth fel a ganlyn:

- Ystyrir bod llywodraethu'n hanfodol gan fod yna fwy o gynlluniau, eu bod yn gymhleth a bod yna lefel is o adnoddau. Mae dyfodiad diwygiadau a rhai achosion cymhleth wedi arwain at wneud newidiadau sylweddol i faterion pensiwn. Bydd byrddau pensiwn lleol yn sicrhau llywodraethu ond cydnabyddir mai mater i bob bwrdd pensiwn lleol yw dehongli'r canllawiau, felly bydd yna fymryn o amrywiadau rhwng ATAau.

- Tynnwyd sylw at y mater o fywyd hir ac at nifer y bobl y disgwylir iddynt fyw'n gan mlwydd oed a throsodd.

- Mwy o ddiwygio ar y gweill? Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi addewid 25 mlynedd, ond mae yna lawer o faterion megis pwysau costau, newidiadau cymdeithasol ac efallai rhagor o newidiadau trethi a allai olygu mwy o ddiwygio ar bensiynau.

- Sut beth yw bwrdd da? Roedd y sleid yn tynnu sylw at bwysigrwydd sefydlu llinellau cyfathrebu clir, rolau a chyfrifoldebau eglur, lefel dda o wybodaeth, dealltwriaeth a bod yn effeithlon ac effeithiol.

4.5 Roedd y Cadeirydd a'r DBST wedi mynychu cyfarfod o fwrdd cynghori pensiynau'r diffoddwyr tân ar gyfer Cymru ar 27 Tachwedd. Trafodwyd y trefniadau llywodraethu, ac yn hytrach na phleidleisio ar faterion, cytunwyd y byddai pob aelod o'r bwrdd cynghori'n rhoi ei safbwynt ac y byddai'r safbwyntiau hynny'n cael eu hadrodd i'r Gweinidog.

5 POLISI GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r aelodau ystyried mabwysiadu polisi gwrthdaro rhwng buddiannau er mwyn sicrhau tryloywder.

5.2 Bu'r aelodau'n trafod y polisi gan awgrymu y byddai'n fuddiol cael cofrestr buddiannau a chyngor cyfreithiol ar y math o fuddiannau y dylid eu datgan eu cofnodi.

5.3 Gofynnodd y Cynghorydd J R Skelland am y broblem bosibl o wrthdaro rhwng buddiannau o ran cyfraniadau awdurdodau lleol i'r ATA. Ond cadarnhaodd y Trysorydd mai ymddiriedolwyr mewn gwirionedd yw'r cynghorydd ar y bwrdd pensiwn lleol ac mae'n rhan o'r cylch gorchwyl nad ydynt yn gallu pleidleisio ar unrhyw faterion pensiwn sy'n codi yng nghyfarfodydd yr ATA. Atgoffwyd aelodau'r Awdurdod ac aelodau'r staff ar y bwrdd pensiwn lleol fod dyletswydd arnynt i weithredu er lles holl aelodau'r holl wahanol gynlluniau pensiwn a bod angen iddynt ystyried y persbectif ehangaf wrth drafod materion pensiwn. Tynnwyd sylw mewn gyfarfod Cymru gyfan yn ddiweddar nad yw bod yn aelod o'r cynllun yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau.

5.4 **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi gwrthdaro rhwng buddiannau a'i gyhoeddi ar wefan ATAGC.**

6 CYFATHREBU

6.1 Rhoddodd y Pennaeth Cyllid gyflwyniad yn canolbwyntio ar gyfathrebu. Prif amcan y cyflwyniad oedd sicrhau bod yr aelodau'n meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i asesu pa mor effeithiol yw cyfathrebiadau Rheolwr y Cynllun (yr ATA) ynghylch pensiynau. Mae byrddau pensiwn lleol yn wynebu tair her, sef llywodraethu, gweinyddu a chyfathrebu; ymhen amser, caiff yr aelodau hyfforddiant ar bob un o'r elfennau hyn.

6.2 Caiff cyfathrebiadau ynglŷn â phensiynau eu darparu'n genedlaethol drwy wahanol ddeddfwriaeth, canllawiau, cylchlythyrau a bwletinau. Mae GTAGC yn rhannu gwybodaeth â'r staff drwy'r wefan, taflenni, cylchlythyrau, seminarau, datganiadau buddion blynyddol, a gall y staff ddefnyddio cyfrifiannell Fy Mhensiwn Ar-lein. Rhannwyd copïau o gyfathrebiadau o'r fath gyda'r aelodau yn y cyfarfod.

6.3 Mae gofyniad cyfreithiol ar ATAGC, fel Rheolwr Cynllun, i gyhoeddi datganiad budd blynyddol i'r holl staff. Caiff y datganiad ei ddosbarthu naill ai fel copi caled i gyfeiriad cartref yr aelod neu ei anfon yn electronig o fewn y cyfleuster 'fy mhensiwn ar-lein'; mae gwybodaeth yn cynnwys gwerth presennol buddion a buddion marw yn y swydd. O ran unigolion sydd o fewn cynllun FPS92 neu gynllun wedi'i amddiffyn 07, maent hefyd yn cael buddion sy'n daladwy ar yr oedran ymddeol arferol. Ond oherwydd diwygiadau 2015 a symud i gynllun CARE, nid yw'r adran hon yn cael ei darparu ar gyfer aelodau nad ydynt yn cael eu hamddiffyn nac aelodau rhyddhad gohiriedig (*taper relief*).

6.4 Roedd y cyflwyniad hefyd yn rhoi gwybodaeth gryno am y Lwfansau Blynyddol. Mae'r lwfans blynyddol yn edrych ar werth potyn pensiwn aelod ar ddechrau'r flwyddyn ac yn dod i ffigwr/gwerth ar ddiwedd y flwyddyn; os yw'r cynnydd yng ngwerth cyffredinol y potyn yn fwy na'r lwfans blynyddol yna mae'r swm uwch na'r terfyn yn drethadwy. Nododd y DBST y gallai hyn fod yn gymwys i rai diffoddwyr tân sydd yn eu blynyddoedd diwethaf o wasanaeth; caiff y gweithiwr wneud cais i'r ATA dalu'r tâl treth uwchlaw'r terfyn sy'n cael ei ad-dalu pan fydd y gweithiwr yn ymddeol. **Nodwyd bod angen cyflwyno polisi disgresiynau i'r ATA llawn i gytuno arno ynghylch y mater.**

6.5 Nodwyd bod cyfathrebu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid y cynllun yn rhan hanfodol o ddarparu cynllun pensiwn o ansawdd da. Mae angen i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol gael eu bodloni bod ATAGC yn cyfathrebu'n effeithiol gydag aelodau ynglŷn â phensiynau, sef yn sicrhau bod y sianelau cyfathrebu'n glir, yn ddefnyddiol ac yn berthnasol a bod aelodau'r cynllun yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen tra byddant yn aelodau o'r cynllun er mwyn cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

6.6 Mae'n bwysig fod aelodau gohiriedig a rhai sy'n ymddiswyddo yn cael eu hatgoffa ei bod yn gyfrifoldeb arnynt i gadw cysylltiad â'r gronfa bensiwn a'u bod yn diweddaru eu manylion cyswllt yn ôl yr angen.

6.7 Yn y cyfarfod nesaf, bydd yr aelodau'n cael gwybodaeth am nifer y gweithwyr sydd yn y gwahanol gynlluniau pensiwn. Hefyd, cafodd yr aelodau eu cynghori i fynd ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.